

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 34/2024

DYDDIAD CYHOEDDI: 23/05/2024



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolwg ail-gysylltu â defnyddwyr Croeso Cymru – Adroddiad y DU ac Iwerddon (2024)

ISBN Digidol: **978-1-83625-110-1**

© Hawlfraint y Goron

This document is also available in English.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Arolwg ail-gysylltu â defnyddwyr Croeso Cymru –
Adroddiad y DU ac Iwerddon (2024)

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 34/2024

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-ailgysylltu-defnyddwyr-croeso-cymru-15-chwefror-i-3-mawrth-2024>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru,
Economi, Ynni a'r Iaith Gymraeg
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru





Cynnwys

- 01 Cefndir a Methodoleg
- 02 Canfyddiadau Allweddol
- 03 Proffil Ymholwyr Croeso Cymru
- 04 Trosi Taith a Pherthynas â Chymru 2023
- 05 Nodweddion Taith 2023
- 06 Effaith marchnata Croeso Cymru
- 07 Tebygolrwydd o ymweld â Chymru yn 2024
- 08 Rhesymau dros beidio â mynd ar daith i Gymru yn 2023



CEFNDIR A METHODOLEG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD





Sbarduno Twristiaeth i Gymru: Mewnwelediadau gan Ymholwyr o'r DU ac Iwerddon

Croeso Cymru, asiantaeth dwristiaeth Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am ddefnyddio ymgyrchoedd twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol i osod Cymru fel cyrchfan twristiaeth blaenllaw.

Mae'r adroddiad manwl hwn yn dadansoddi data o arolwg ar-lein a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024 ymhlith cysylltiadau defnyddwyr Croeso Cymru o'r DU ac Iwerddon (cyfeirir atynt fel 'ymholwyr' drwyddo draw). Mae adroddiad ar wahân ar gael ar ymholwyr o'r Almaen.

Prif amcanion ymchwil yr arolwg oedd:

- Asesu trosi taith a pherthynas â Chymru
- Deall nodweddion teithiau a gymerwyd yn 2023
- Mesur effaith y marchnata
- Deall cynlluniau ar gyfer teithiau yn 2024
- Asesu'r rhesymau dros beidio â mynd ar daith yn 2023



Methodoleg

Cysylltodd Croeso Cymru ag ymholwyr drwy e-bost ym mis Chwefror 2023 a gofynnwyd iddynt gwblhau arolwg ar-lein 10 i 15 munud a oedd ar gael yn Gymraeg neu Saesneg. Anfonwyd nodyn atgoffa o'r gwahoddiad at y rhai nad oeddent wedi'i agor wythnos ar ôl rhannu'r gwahoddiad cyntaf. Cynigiwyd cymhelliad raffl hefyd.

Rhoddwyd 18 diwrnod i gyfranogwyr gwblhau'r arolwg - gyda'r arolwg yn agor ar 15 Chwefror ac yn cau am 5pm ar 3 Mawrth.

Sampl a Chyfradd Ymateb

Deilliodd y sampl o sawl ffynhonnell wahanol, gan adlewyrchu sut y bu ymholwyr mewn cysylltiad â Croeso Cymru.

Mae'r tabl isod yn amlinellu ffynonellau'r sampl a nifer y cysylltiadau sydd ar gael yn ôl ffynonellau'r sampl ac ar lefel gyfan.

Ffynonellau'r Sampl	Meintiau Sampl
Ymholwyr gwefan	5,328
Ymholwyr ECRM	37,565
Ymholwyr ymgych	2,861
Ymholwyr cyfryngau cymdeithasol	4,805
Cyfanswm y SAMPL	50,559

O'r 50,559 o wahoddiadau a anfonwyd at ymholwyr, derbyniwyd 6,208 o ymatebion i'r arolwg wedi'u cwblhau, gan roi cyfradd ymateb gyffredinol o 12%.





Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio sawl term i ddiffinio'r ymatebwyr i'r arolwg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Ymholwyr Croeso Cymru:** Cyfanswm poblogaeth yr arolwg - cysylltiadau defnyddwyr Croeso Cymru a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn.
- **Pobl a gymerodd daith i Gymru yn 2023:** Ymholwyr Croeso Cymru a ddywedodd yn yr arolwg eu bod wedi cymryd taith fer neu wyliau i Gymru yn 2023
- **Pobl nad ydynt yn ymweld â Chymru:** Ymholwyr Croeso Cymru a ddywedodd yn yr arolwg na wnaethant gymryd taith fer neu wyliau i Gymru yn 2023
- **Pobl sy'n bwriadu mynd ar daith i Gymru yn 2024:** Ymholwyr Croeso Cymru a ddywedodd yn yr arolwg eu bod yn bwriadu cymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024

Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddiben yr adroddiad hwn, defnyddir y canlynol:

- **Rhag-nythwyr:** 16-34 oed heb blant yn y cartref
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda phlant yn y cartref
- **Pobl annibynnol hŷn:** 35-64 oed heb unrhyw blant yn y cartref
- **Oed ymddeol:** 65+ oed



CANFYDDIADAU ALLWEDDOL



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD





Canfyddiadau Allweddol - DU ac Iwerddon

Cyfraddau Ymweliadau

Cynhaliodd Cymru ei niferoedd o ymwelwyr domestig yn 2023, yn unol â sgoriau'r flwyddyn flaenorol. Dywedodd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod wedi ymweld.

Patrymau Teithio Hanesyddol

Mae cyfran sylweddol o ymwelwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi ymddeol, wedi bod yn ymwelwyr cyson â Chymru ers cyn 2020, sy'n awgrymu cysylltiad cryf â Chymru.

Bodlonrwydd Ymwelwyr

Arhosodd bodlonrwydd â phrofiad twristiaeth Cymru yn sefydlog, gyda'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn nodi bod eu taith yn 'Ardderchog'.

Sbardunau Bodlonrwydd

Ansawdd yr amgylchedd naturiol, diogelwch personol, ac amrywiaeth yr atyniadau oedd y prif ffactorau a oedd yn ysgogi bodlonrwydd ymwelwyr. I'r gwrthwyneb, nodwyd pryderon ynghylch seilwaith yn bwyntiau anfodlonrwydd.

Dewisiadau Ymwelwyr

Daeth Gogledd Cymru ac Eryri i'r brig fel hoff gyrchfannau, gydag ychydig o symudiad tuag at ymweld yn y gwanwyn, er mai mis Awst yw'r prif fis ymweld o hyd.

Dylanwad Cyfathrebu

Roedd tua thraean o'r sawl a gymerodd daith yn cydnabod bod cyfathrebiadau Croeso Cymru wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ymweld, yn enwedig drwy annog ymweliadau i Gymru y tu allan i dymor yr haf

Amseru Penderfyniad

Roedd nifer sylweddol o ymwelwyr wedi penderfynu ar eu taith erbyn diwedd y flwyddyn flaenorol, gan bwysleisio pwysigrwydd ymdrechion marchnata cynnar i ddylanwadu ar benderfyniadau teithio.

Nifer fawr yn bwriadu dychwelyd

Gan adlewyrchu profiad ymwelwyr cadarnhaol, mae mwyafrif ymwelwyr 2023 yn bwriadu dychwelyd yn 2024, yn enwedig y rhai sydd wedi ymddeol.



PROFFIL YMHOLOWYR CROESO CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


KUBI
KALLOD



Mae poblogaeth y sampl ychydig yn hŷn o gymharu â 2023.
O ran rhyw, roedd mwy o gyfranogwyr a oedd yn nodi fel
merched.

	Cyfnod bywyd	2023	2024 (yr adroddiad hwn)
	Rhag-nythwyr	9%	4%
	Teuluoedd	10%	11%
	Pobl annibynnol hŷn	44%	43%
	Oed ymddeol	37%	42%

Rhyw



	Oed	2023	2024 (yr adroddiad hwn)
	16-34	11%	5%
	35-54	23%	24%
	55-64	29%	29%
	65+	37%	42%

X1. Sut ydych chi'n disgrifio'ch rhyw?


X2. Nodwch eich oedran.

X2b. A oes gennych unrhyw blant 15 oed neu iau yn eich cartref yr ydych yn gyfrifol amdanynt (rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol ac ati)? Cyfanswm, n=6208.



O'i gymharu â 2023, mae ymholwyr o'r DU ac Iwerddon yn 2024 yn parhau'n ddigyfnewid i raddau helaeth yn eu hymddygiad a'u bwriadau ar gyfer ymweld â Chymru, gyda bron i hanner yn aml yn cymryd seibiannau byr ac yn bwriadu ymweld eto o fewn y flwyddyn nesaf.


Perthynas â Chymru



A1. Pa un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi o ran ymweld â Chymru? Cyfanswm, n=5381 (2023), n=6208 (2024).

Mae'r mwyafrif helaeth o ymholwyr y DU ac Iwerddon naill ai'n Bobl Annibynnol Hŷn neu o Oed Ymddeol. Maent yn llawer mwy tebygol o ddod drwy'r ECRM na'u cymheiriaid iau - sy'n fwy tebygol o ddod trwy ymgyrchoedd.


Cyfnod bywyd yn ôl ffynhonnell sampl



X2. Nodwch eich oedran.
X2b. A oes gennych unrhyw blant 15 oed neu iau yn eich cartref yr ydych yn gyfrifol amdanynt (rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol ac ati)? Cyfanswm, n=6208 (Ymholwyr gwefan n=895, Ymholwyr ECRM n=4211, Ymholwyr ymgyrch n=687, Ymholwyr cyfryngau cymdeithasol n=415).

Lloegr yw'r brif ardal darddiad gan gyfrif am 89% o sampl y DU, gyda bron i 1 o bob 5 o'r sampl yn dod o Ogledd-orllewin Lloegr. Mae Cymru yn gwneud i fyny 8% o'r sampl cyffredinol.

Rhanbarth preswyl



X3c. A ble yn y DU ydych chi'n byw? Pob ymatebydd sy'n byw yn y DU, n=6058.

TROSI TAITH A PHERTHYNAS Â CHYMRU 2023




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD




Dywedodd tua 3 o bob 5 eu bod wedi mynd ar daith i Gymru yn 2023, sy'n gyson o gymharu â'r llynedd ac ar draws cyfnodau bywyd. Wrth edrych ar raniad cyfnod bywyd y rhai sy'n cymryd teithiau, mae'n cyd-fynd yn agos â dadansoddiad y sampl.

A gymerwyd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023



Pawb a gymerodd daith i Gymru




A2a. A aethoch chi ar daith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2023?
Pawb a gymerodd daith i Gymru, n=5974 (Rhag-nythwyr n=192, Teuluoedd n=631, Pobl annibynnol hŷn, n=2583, Oed ymddeol n=2568).



Ar gyfartaledd, cymerodd y rhai a ymwelodd â Chymru yn 2023 3.3 taith fer neu wyliau i Gymru yn 2023.

Nifer y teithiau byr neu wyliau a gymerwyd yng Nghymru yn 2023




A3. Sawl taith fer neu wyliau wnaethoch chi yng Nghymru yn 2023? Gyda “taith fer” rydym yn golygu arhosiad 1-3 noson, a gyda “gwyliau” rydym yn golygu 4 noson neu fwy? - Crynodeb Cymedrig. Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652.



Aeth bron i dri chwarter yr ymatebwyr ar daith i Gymru cyn 2020, yn enwedig y rhai o Oed Ymddeol. Mae teuluoedd, Pobl Annibynnol Hŷn ac ymholwyr Cyfryngau Cymdeithasol yn fwy tebygol o fod wedi mynd ar daith i Gymru yn 2022.

Pryd cymerwyd teithiau byr neu wyliau yng Nghymru cyn 2023



A2b. A aethoch chi ar daith fer neu wyliau yng Nghymru cyn 2023?
Pawb a gymerodd daith i Gymru, n=5974 (Rhag-nythwyr n=192, Teuluoedd n=631, Pobl annibynnol hŷn n=2583, Oed ymddeol n=2568, Ymholwyr gwefan n=876, Ymholwyr ECRM n=4074, Ymholwyr ymgyrch n=618, Ymholwyr cyfryngau cymdeithasol n=406).



Trosi Taith a Pherthynas â Chymru 2023

Cyfraddau Ymweliadau Sefydlog

Dywedodd tua 3 o bob 5 o'r ymatebwyr eu bod wedi mynd ar daith i Gymru yn 2023, gan gynnal cyfradd ymweliadau'r flwyddyn flaenorol.

Patrymau Teithio Hanesyddol

Roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr wedi ymweld â Chymru cyn 2020, gyda chyffredinolrwydd amlwg ymhlith y rhai o oed ymddeol.



NODWEDDION TAITH 2023




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD



Dywedodd ychydig yn llai na 4 o bob 5 o ymwelwyr Cymru fod eu profiad yn 'Ardderchog', a oedd yn debyg i'r llynedd.

Sut brofiad oedd aros yng Nghymru




A15. Gan fynd yn ôl i'ch taith i Gymru/yng Nghymru yn 2023, pa sgôr o 1 i 10 y byddech chi'n ei rhoi i'ch profiad cyffredinol lle mae 1 yn wael iawn a 10 yn dda iawn? Pawb a gymerodd daith i Gymru, n=3652 (Rhag-nythwyr n=112, Teuluoedd n=403, Pobl annibynnol hŷn n=1609 and Oed ymddeol n=1528).




Roedd ymwelwyr Croeso Cymru 2023 fwyaf bodlon gydag ansawdd yr amgylchedd naturiol, y teimlad o ddiogelwch a'r lleoedd i ymweld â nhw.

Bodlonrwydd gyda gwahanol elfennau o brofiad ymweliad Cymru, y 12 uchaf



Roeddent fwyaf anfodlon gyda chost ac argaeledd parcio acargaeledd toiledau cyhoeddus.

Bodlonrwydd gyda gwahanol elfennau o brofiad ymweliad Cymru, y 12 isaf



A16/17. Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar eich taith yng Nghymru? Ticiwch 'ddim yn berthnasol' os nad yw opsiwn yn berthnasol i chi (1=Anfodlon iawn, 10= Bodlon iawn). Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652. Wedi'u rhestru o uchel i isel yn seiliedig ar anfodlonrwydd.

Dewisodd bron i hanner ymweld â Chymru oherwydd eu bod wedi bod o'r blaen ac roeddent am ddychwelyd, gyda natur a gorffwys yn sbardunau allweddol eraill.

Rhesymau dros ddewis Cymru fel cyrchfan

Rwyf wedi bod o'r blaen ac roeddwn eisiau mynd eto 48%



A7. Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, oedd y prif ffactorau dros ddewis Cymru fel cyrchfan ar gyfer y daith fer hon/gwyliau hyn yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652. Wedi'u rhestru o uchel i isel yn seiliedig ar gyfartaledd.



Rhag-nythwyr a Phobl Annibynnol Hŷn sydd fwyaf tebygol o fynd i gysylltu â byd natur. Mae treulio amser gyda theulu yn bwysig hefyd, yn enwedig i Deuluoedd.

	Rhag-nythwyr	Teuluoedd	Pobl annibynnol hŷn	Oed ymddeol
5 prif reswm	I gysylltu â natur / bod yn yr awyr agored	I dreulio amser gyda theulu a ffrindiau	I gysylltu â natur / bod yn yr awyr agored	Rwyf wedi bod o'r blaen ac roeddwn eisiau mynd eto
	I dreulio amser gyda theulu a ffrindiau	I gysylltu â natur / bod yn yr awyr agored	I ddianc o bopeth a gorffwys ychydig	I ddianc o bopeth a gorffwys ychydig
	I ddianc o bopeth a gorffwys ychydig	Rwyf wedi bod o'r blaen ac roeddwn eisiau mynd eto	Rwyf wedi bod o'r blaen ac roeddwn eisiau mynd eto	I gysylltu â natur / bod yn yr awyr agored
	Eisiau ymweld â rhan o Gymru nad oeddwn wedi bod iddi o'r blaen	I ddianc o bopeth a gorffwys ychydig	I dreulio amser gyda theulu a ffrindiau	I dreulio amser gyda theulu a ffrindiau
	Rwyf wedi bod o'r blaen ac roeddwn eisiau mynd eto	I gael profiad o'r diwylliant a threftadaeth	I gael profiad o'r diwylliant a threftadaeth	I gael profiad o'r diwylliant a threftadaeth

A7. Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, oedd y prif ffactorau dros ddewis Cymru fel cyrchfan ar gyfer y daith fer hon/gwyliau hyn yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652. (Rhag-nythwyr n=112, Teuluoedd n=403, Pobl annibynnol hŷn n=1609, Oed ymddeol n=1528). Wedi'u rhestru o uchel i isel.



Cerdded, heicio neu grwydro yw'r gweithgaredd mwyaf cyffredin yng Nghymru, sy'n cyd-fynd â'r rhesymau (i gysylltu â natur a bod yn yr awyr agored) dros fynd i Gymru.

Gweithgareddau a wnaed yng Nghymru yn 2023, y 12 uchaf

Cerdded, Heicio neu Grwydro 59%





A14. Pa rai, os o gwbl, wnaethoch chi ar y daith hon i Gymru/yng Nghymru yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652. Wedi'u rhestru o uchel i isel (y 12 uchaf).



Gogledd Cymru ddenodd y nifer uchaf o ymweliadau dros nos, wedi’u sbarduno’n bennaf gan arosiadau yn Eryri. Mae rhag-nythwyr yn fwy tebygol o aros yng Nghaerdydd na’r rhai mewn cyfnodau bywyd eraill.


Ble yng Nghymru arhosoch chi?



A12. Ble yng Nghymru arhosoch chi dros nos ar y daith hon? Dewiswch bob un sy’n berthnasol. Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652.
Gogledd Cymru = Gogledd-ddwyrain Cymru, Llandudno a Bae Colwyn, Eryri – Mynyddoedd a Môr, Ynys Môn; Canolbarth Cymru = Canolbarth Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ceredigion – Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria; De-orllewin Cymru = Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin and Bae Abertawe; De-ddwyrain Cymru = Caerdydd, Cymoedd De Cymru, Arfordir Treftadaeth Morgannwg and Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg.

Arhosodd bron i 9 o bob 10 o bobl a aeth ar daith i Gymru dros nos mewn un lleoliad yn unig. Rhag-nythwyr sydd fwyaf tebygol o aros mewn lleoliadau lluosog, gyda'u 18% yn cynrychioli a +3% cynnydd pwynt canran o gymharu â'r llynedd.


A arhosoch chi mewn un neu sawl lleoliad?



A13. Pa un o'r isod sy'n disgrifio orau eich taith yng Nghymru yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652. Cyfanswmn=5974 (Rhag-nythwyr n=112, Teuluoedd n=403, Pobl annibynnol hŷn n=1609, Oed ymddeol n=1528, Ymholwyr gwefan n=675, Ymholwyr ECRM n=2377, Ymholwyr ymgyrch n=285, Ymholwyr cyfryngau cymdeithasol n=315).

Medi oeddy mis mwyaf poblogaidd i ymweld â Chymru yn 2023, er bod misoedd yr haf ychydig yn is o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda chynnydd yn nifer y rhai a ddewisodd ymweld yn ystod y Gwanwyn.

Mis y cymerwyd taith i Gymru yn 2022 neu 2023




A4. A4. Ac ym mha fis(oedd) o'r flwyddyn ymweloch chi â Chymru am daith fer neu wyliau yn 2023 Pawb a gymerodd daith i Gymru, n=3256 (2022), n=3652 (2023).




Arhosodd y sawl a aeth ar daith i Gymru am 4.4 noson ar gyfartaledd – gostyngiad bychan iawn o'i gymharu â'r llynedd (4.5 noson). Roedd rhag-nythwyr yn tueddu i gymryd arhosiadau byrrach, tra bod pobl wedi ymddeol yn fwy tebygol o aros am fwy na 4 noson.

Am sawl noson arhosoch chi i ffwrdd?




Faint oedd yn eich criw?



A5. Ar y daith dros nos hon i Gymru/yng Nghymru, am sawl noson wnaethoch chi aros i ffwrdd?
A6. Gan gynnwys chi, faint o'r canlynol oedd yn eich grŵp uniongyrchol ar y daith dros nos hon i Gymru/yng Nghymru ym <mis>? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652.

Nid oedd 67% o ymwelwyr i Gymru wedi ystyried unrhyw gyrchfannau eraill ar gyfer y daith – er bod bron chwarter yn ystyried ychwanegu cyrchfan arall at y deithlen.

Ystyriaeth gystadleuol, yn ôl cyfnod bywyd



A8_UKI. Pa rai, os o gwbl, o'r cyrchfannau eraill a ganlyn wnaethoch chi eu hystyried pan aethoch chi ar eich taith dros nos yng Nghymru yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652. (Rhag-nythwyr n=112, Teuluoedd n=403, Pobl annibynnol hŷn n=1609, Oed ymddeol n=1528).



Archebodd hanner y rhai a aeth ar daith eu llety 'yn uniongyrchol gyda darparwr llety', gan olygu mai dyma'r dull mwyaf cyffredin o bell ffordd o archebu llety.

Sut archebwyd llety ar gyfer taith i Gymru

Yn uniongyrchol gyda darparwr llety **50%**



Daeth **17%** o hyd i wybodaeth neu fanylion cyswllt ar gyfer y llety y buont yn aros ynddo ar wefan Croeso Cymru

A9. Sut wnaethoch chi fwcio eich llety ar gyfer y daith hon i Gymru/yngh Nghymru? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3562
A10. A wnaethoch chi ddod o hyd i wybodaeth neu fanylion cyswllt ar gyfer y llety yr arhosoch ynddo ar wefan Croeso Cymru? Pawb a archebodd llety, n=3057. Wedi'u rhestru o uchel i isel.





'Tai ar Rent / Bythynnod' oedd y math mwyaf poblogaidd o lety, ac yna 'Gwestai / Motelau'.

Math o lety a arhoswyd ynddo

Tŷ/bwthyn/caban ar rent
neu rywbeth tebyg **38%**

Gwesty / Motel / Tafarn **27%**

Cartref ffrind neu berthynas **13%**

Tŷ llety / Gwely a brecwast **9%**

Fan wersylla / Cartref modur **6%**

Carafán sefydlog – nid yn eiddo i chi **6%**

Fflat ar rent neu debyg **5%**

Rhentu cartref cyfan rhywun arall ar sail fasnachol **5%**

A11. Ym mha fath/au o lety arhosoch chi yn ystod eich taith yn 2023 i Gymru/ynghymru?
Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652. Wedi'u rhestru o uchel i isel (y 8 uchaf).





Deall nodweddion teithiau a gymerwyd yn 2023

Bodlonrwydd Ymwelwyr

Mae'r mwyafrif helaeth yn ystyried eu profiad yn 'Ardderchog', a arhosodd yn sefydlog o gymharu â'r llynedd.

Sbardunau Bodlonrwydd

Ansawdd yr amgylchedd naturiol, diogelwch, a'r amrywiaeth o leoedd i ymweld oedd y prif ysgogwyr bodlonrwydd. Roedd anfodlonrwydd yn bennaf yn gysylltiedig â chost ac argaeledd parcio ac argaeledd toiledau cyhoeddus.

Dewisiadau Ymwelwyr

Gogledd Cymru, yn enwedig Eryri, oedd y gyrchfan fwyaf poblogaidd. Roedd dewisiadau tymhorol yn dangos symudiad bach tuag at ymweliadau yn y gwanwyn, er mai mis Medi oedd y mis brig o hyd.



EFFAITH MARCHNATA CROESO CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


KUBI
KALLOD



Roedd y rhai a aeth ar deithiau i Gymru yn fwyaf tebygol o fod wedi gweld neu glywed am Gymru ar lafar, cyn hysbysebu ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a chynnwys gwefan.


Amlygiad cyfathrebu

Ar lafar **36%**



A18. Gan feddwl am farchnata a chyfathrebu, pa rai, os o gwbl, o'r canlynol a welsoch neu a glywsoch am Gymru yn ystod 2023??

Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652. Wedi'u rhestru o uchel i isel.




Wrth edrych ar farchnata i bob cyfnod bywyd, tra bod pawb yn nodi ar lafar fel eu prif ffynhonnell, mae rhag-nythwyr yn ymgysylltu llawer mwy yn ddigidol ac yn fwy tebygol o'u canfod trwy gyfryngau cymdeithasol - mae erthyglau papur newydd yn debygol o gyrraedd y bobl sydd wedi ymddeol.

	Rhag-nythwyr	Teuluoedd	Pobl annibynnol hŷn	Oed ymddeol
5 Uchaf	Ar lafar / sgysiau ag eraill	Ar lafar / sgysiau ag eraill	Ar lafar / sgysiau ag eraill	Ar lafar / sgysiau ag eraill
	Hysbysebu ar-lein	Hysbysebu ar-lein	Hysbysebu ar-lein	Hyrwyddiad neu gynnwys ar wefan
	Cynnwys hyrwyddol ar gyfryngau cymdeithasol	Cynnwys hyrwyddol ar gyfryngau cymdeithasol	Cynnwys hyrwyddol ar gyfryngau cymdeithasol	Hysbysebu ar-lein
	Hyrwyddiad neu gynnwys ar wefan	Hyrwyddiad neu gynnwys ar wefan	Hyrwyddiad neu gynnwys ar wefan	Erthygl mewn papur newydd neu gylchgrawn (wedi argraffu neu ar-lein)
	Erthygl mewn papur newydd neu gylchgrawn (wedi argraffu neu ar-lein)	Dim un o'r uchod	Wedi gweld hysbyseb ar y teledu, ar blatfform dal i fyny neu ar blatfform ffrydio	Cynnwys hyrwyddol ar gyfryngau cymdeithasol


A18. Gan feddwl am farchnata a chyfathrebu, pa rai, os o gwbl, o'r canlynol a welsoch neu a glywsoch am Gymru yn ystod 2023? (Rhag-nythwyr n=112, Teuluoedd n=403, Pobl annibynnol hŷn n=1609, Oed ymddeol n=1528). Wedi'u rhestru o uchel i isel.

E-gylchlythyrau gan Croeso Cymru oedd y ffordd fwyaf poblogaidd i ddarpar ymwelwyr gysylltu â Croeso Cymru, ac yna ymweld â'r wefan. Mae Facebook yn arwain y ffordd ar gyfer cyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol, ond mae 1 o bob 3 o rag-nythwyr yn ymgysylltu trwy Instagram - sy'n cynrychioli llwybr cryf i grŵp anodd ei gyrraedd.

Cyswllt â Croeso Cymru




Ymgysylltu â Phlatfform Cyfryngau Cymdeithasol fesul Cyfnod Bywyd



A19. Gan feddwl am y cyswllt a gawsoch chi gyda Croeso Cymru yn 2023, pa rai o'r canlynol sy'n berthnasol i chi? Wedi'u rhestru o uchel i isel Cyfanswm, n=6208 (Rhag-nythwyr n=112, Teuluoedd n=403, Pobl annibynnol hŷn n=1609, Oed ymddeol n=1528).


Ni welodd bron hanner unrhyw ddeunyddiau yn ymwneud ag ymgyrch, ond gwelodd 1 o bob 3 gyfathrebiadau yn ymwneud â rhesymau dros ymweld trwy gydol y flwyddyn, ac roedd tua thraean ohonynt yn ei chael yn ddylanwadol.

Wedi gweld cyfathrebiadau yn hyrwyddo Cymru?



Dylanwad ar y penderfyniad i gymryd taith i Gymru*

Dylanwad iawn/Hynod ddylanwadol




A23a. Yn 2023, a welsoch chi unrhyw gyfathrebu yn hyrwyddo Cymru mewn perthynas â'r meysydd canlynol? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652 Wedi'u rhestru o uchel i isel.


A23b. A pha mor ddylanwadol oedden nhw ar eich penderfyniad i fynd ar daith i Gymru/ yng Nghymru yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, Lleoedd Newydd n=907, Rheswm/rhesymau newydd i ymweld trwy gydol y flwyddyn n=1168, Gweithgareddau Newydd n=572 & Digwyddiadau Newydd n=554.

Dywedodd bron i 3 o bob 10 fod cyfathrebiadau Croeso Cymru yn ddylanwadol ar eupenderfyniad i fynd ar daith i Gymru. Ymwelodd 3 o bob 10 arall â Chymru hefyd y tu allan i fisoedd brig yr haf, sy'n cyd-fynd â chyfathrebu sy'n hyrwyddo teithio drwy'r flwyddyn.

Dylanwad cyfathrebu Croeso Cymru ar benderfyniad taith



Dylanwad cyfathrebu Croeso Cymru ar ymddygiad



A22. Ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 yn golygu 'dim dylanwad o gwbl' a 5 yn golygu 'dylanwad mawr', pa ddylanwad, os o gwbl, cafodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar eich penderfyniad i gymryd taith fer neu wyliau yn 2023?

A23. Yn 2023, a effeithiodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar eich ymddygiad mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol... Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652. Wedi'u rhestru o uchel i isel.



Roedd bron i dri chwarter y rhai a aeth ar daith eisoes wedi penderfynu mynd ar daith i Gymru yn 2023 erbyn diwedd 2022.

Meddylfryd ynghylch ymweld â Chymru ar ddiwedd 2022

Roeddwn eisoes wedi penderfynu ymweld â Chymru yn 2023 **72%**

Roeddwn yn ystyried ymweld â Chymru yn 2023, ond nid oeddwn wedi gwneud penderfyniad terfynol **22%**

Nid oeddwn yn ystyried ymweld â Chymru yn 2023 **4%**


Ddim yn gwybod/methu cofio **2%**

A24. Yn olaf yn yr adran hon, gan feddwl yn ôl i ddiwedd 2022, pa un o'r datganiadau hyn sy'n disgrifio orau eich cynlluniau ar yr adeg honno i ymweld â Chymru yn 2023? Pawb a gymerodd daith i Gymru yn 2023, n=3652. Wedi'u rhestru o uchel i isel



Mae Croeso Cymru yn gweld mwy o draffig o ddyfeisiau symudol ac mae'r rhan fwyaf yn cyrchu'r wefan gartref.

Ar ba ddyfais?



A20. Yn y 12 mis diwethaf, pa ddyfeisiau ddefnyddioch chi i gyrchu gwefan Croeso Cymru? Pawb a ymwelodd â gwefan Croeso Cymru, n=2980 Gartref, n=608 Yn ystod taith, n=1656 Yn ystod taith i Gymru/ynghymru/i rywle arall.





Effaith marchnata Croeso Cymru

Dylanwad Cyfathrebu

Roedd tua thraean yn cytuno bod cyfathrebiadau gan Croeso Cymru wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau, gan eu cymell yn arbennig i ymweld y tu allan i dymor yr haf.

Sianeli Ymgysylltu

E-gylchlythyrau oedd y dull mwyaf poblogaidd o gael y wybodaeth ddiweddaraf am Gymru. Mae cyfryngau cymdeithasol hefyd yn chwarae rhan amlwg. Mae Facebook yn arwain y ffordd, er bod Instagram wedi dangos tyniant ymhlith rhag-nythwyr.

Amseru Penderfyniad

Roedd bron i dri chwarter y rhai a aeth ar daith eisoes wedi penderfynu erbyn diwedd 2022, gan amlygu pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar â phrosesau cynllunio teithio.



TEBYGOLRWYDD O YMWELD Â CHYMRU YN 2024




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD



Mae mwyafrif llethol y rhai sy'n mynd ar daith yn bwriadu dychwelyd yn 2024 – mae mwy na hanner y rhai nad ydynt yn ymwelwyr yn bwriadu gwneud yr un peth. Mae pobl sydd wedi ymddeol yn fwy tebygol o gynllunio ymweliad â Chymru yn 2024 o gymharu â rhag-nythwyr.


Tebygolrwydd o ymweld â Chymru yn 2024



B5. A ydych chi'n bwriadu ymweld â Chymru am daith fer neu wyliau yn 2024? Cyfanswm, n=6208 (Y rhai a gymerodd daith yn 2023 n=3652, Y rhai na ymwelodd n=2556, Rhag-nythwyr n=228, Teuluoedd n=659, Pobl annibynnol hŷn n=2692, Oed ymddeol n=2629).

Mae chwarter y rhai sy'n bwriadu trefnu taith yn nodi bod cyfathrebiadau Croeso Cymru wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i fynd ar daith i Gymru yn 2024. Mae'r sampl cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o gael ei ddylanwadu.

Dylanwad cyfathrebiad Croeso Cymru ar benderfyniad taith, yn ôl ffynhonnell y sampl




B10. Ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 yn golygu 'dim dylanwad o gwbl' a 5 yn golygu 'dylanwad mawr', pa ddylanwad, os o gwbl, cafodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar eich penderfyniad i gymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024? Pawb yn debygol o ymweld â Chymru yn 2024 neu wedi archebu yn barod, n=4548 (Gwefan n=703, ECRM n=3078, ymgyrch n=407, cyfryngau cymdeithasol n=360).






Ychydig iawn o wahaniaethau sydd yn ôl cyfnod bywyd.

Dylanwad cyfathrebiad Croeso Cymru ar benderfyniad taith, yn ôl cyfnod bywyd




B10. Ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 yn golygu 'dim dylanwad o gwbl' a 5 yn golygu 'dylanwad mawr', pa ddylanwad, os o gwbl, cafodd cyfathrebiadau Croeso Cymru ar eich penderfyniad i gymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024? Pawb yn debygol o ymweld â Chymru yn 2024 neu wedi archebu yn barod, n=4548 (Rhag-nythwyr n=152, Teuluoedd n=473, Pobl annibynnol hŷn n=1985, Oed ymddeol n=1938).




Gogledd Cymru yw'r gyrchfan ar y brig o hyd ar gyfer 2024, gyda 3 o bob 5 o'r bobl sy'n trefnu taith yn bwriadu ymweld. Mae'n edrych yn debyg mai mis Medi fydd y mis prysuraf i dwristiaeth, gyda'r Gwanwynhefyd yn amser poblogaidd i ymweld.

Ble yng Nghymru ydych chi'n bwriadu ymweld yn 2024?




Mis ymweliad arfaethedig



B8. Pa rai o'r ardaloedd hyn ydych chi'n bwriadu ymweld â nhw ar eich gwyliau neu daith fer nesaf yng Nghymru yn 2024?
B7. Pryd ydych chi'n bwriadu cymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn 2024? Pawb yn debygol o ymweld â Chymru yn 2024 neu wedi archebu yn barod, n=4548

Mae ychydig dros tri chwarter y rhai sy'n bwriadu trefnu taith yn 2024 yn bwriadu ymweld â Chymru yn 2024 gyda'u partner. Mae teuluoedd yn fwyaf tebygol o gynllunio i ymweld â Chymru gyda'u partner a'u plant, tra bod rhag-nythwyr yn fwy tebygol o ymweld â'u ffrind(iau) a'r bobl sydd wedi ymddeol gyda'u hwyron a'u hwyresau.

Cyfansoddiad criw ar gyfer taith i Gymru yn 2024, yn ôl cyfnod bywyd



B9. Pwy, os unrhyw un, sy'n debygol o ddod gyda chi ar eich taith fer neu wyliau nesaf yng Nghymru?
Pawb yn debygol o ymweld â Chymru yn 2024 neu wedi archebu yn barod, n=4548 (Rhag-nythwyr n=152, Teuluoedd n=473, Pobl annibynnol hŷn n=1985 and Oed ymddeol n=1938).



O'r rhai sy'n annhebygol o ymweld â Chymru yn 2024, dywedodd 68% eu bod 'ddim yn gwybod' pryd y byddent yn ymweld â Chymru. Dywedoddchwarter y byddent yn ymweld yn 2025.

Pryd yn debygol o ymweld â Chymru nesaf?

Ddim yn gwybod **68%**

Yn 2025  26%

Yn 2026  4%

2027 neu'n ddiweddarach  2%

B6. A phryd ydych chi'n bwriadu ymweld â Chymru nesaf am daith fer neu wyliau?
Pawb yn annhebygol o ymweld â Chymru yn 2024 neu ddim yn siŵr, n=1660.





Deall y cynlluniau ar gyfer teithiau yn 2024

Nifer fawr yn bwriadu dychwelyd

Mae'r mwyafrif a ymwelodd â Chymru yn 2023 yn bwriadu dychwelyd yn 2024. Pobl wedi ymddeol yw'r grŵp sydd fwyaf tebygol o gynllunio i ailymweld.

Dylanwad Cyfathrebu

Mae 26% o ddarpar ymwelwyr wedi cael eu dylanwadu gan gyfathrebiadau Croeso Cymru i gynllunio i fynd ar daith i Gymru yn 2024.

Cymdeithion Teithio

Mae'r duedd ar gyfer 2024 yn dangos ffafriaeth i deithio gyda phartneriaid, gyda theuluoedd yn debygol o deithio gyda phlant, rhag-nythwyr gyda ffrindiau, a phobl sydd wedi ymddeol gydag wyrion ac wyresau.



RHESYMAU DROS BEIDIO Â MYND AR DAITH




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

KUBI
KALLOD



Roedd ychydig llai na hanner o’r rhai nad oedd wedi bod ar daith i Gymru yn 2023 yn ystyried taith dros nos i Gymru yn 2023. Aeth dros hanner y rhai na ddaeth i Gymru i rywle arall.

Bwriad i ymweld â Chymru gan rai nad ydynt wedi ymweld â Chymru



44%

O’r rhai nad oedd wedi bod
ar daith i Gymru yn ystyried
taith dros nos i Gymru yn
2023

B1. Sonioch chi na wnaethoch gymryd taith fer neu wyliau yng Nghymru yn ystod 2023. A oeddech chi’n ystyried taith dros nos i Gymru/yng Nghymru yn 2023 ar unrhyw adeg?


B2. Ac a aethoch chi rywle arall am wyliau, neu aethoch chi ddim ar wyliau o gwbl?

Y rhai na aethont ar daith i Gymru 2023, n=2322.



O'r rhai nad iddynt ymweld â Chymru a aeth i rywle arall ym Mhrydain ac Iwerddon, 'Lloegr' oedd y gyrchfan amgen yr ymwelwyd â hi amlaf.

Cyrchfan y rhai a aeth i rywle arall yn Ynysoedd Prydain ac Iwerddon



B3. Ac i ba un o'r ardaloedd canlynol o Ynysoedd Prydain ac Iwerddon aethoch chi? Y bobl na ymwelodd â Chymru a aeth rywle arall yn Ynysoedd Prydain, n=1093.





Yn 2023, 'Amgylchiadau personol' oedd y prif reswm a roddwyd dros beidio ag ymweld â Chymru. Mae'r ymatebion testun agored yn sôn am nifer fawr o bynciau. Soniodd 2% o'r ymatebion am y terfynau cyflymder 20mya.

Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2023

Amgylchiadau personol 34%



B4. Beth oedd y rhesymau na ymweloch chi â Chymru am wyliau yn 2023?
Y rhai na aethont ar daith i Gymru 2023, n=2322. Wedi'u rhestru o uchel i isel





Rhesymau dros beidio â mynd ar daith

Heb Drosi

Mae nifer yr ymwelwyr na ystyriodd Cymru yn nodedig (44%).

Sbardunau peidio ag ymweld

'Amgylchiadau personol' oedd y prif reswm a roddwyd yn aml dros beidio ag ymweld â Chymru.

